Cyngor Sir Caerfyrddin

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014

# Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (Canol Tref Llanelli) Cyngor Sir Caerfyrddin 2024

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin ("y Cyngor") trwy hyn yn cyflwyno'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus canlynol o dan adran 59 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014:

Cyfeirir at y Gorchymyn hwn fel 'Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (Canol Tref Llanelli) Cyngor Sir Caerfyrddin 2024'.

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Ionawr 2024 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o dair blynedd.

## Cyflwyniad

(a) Gall y defnydd gwrthgymdeithasol o alcohol, cyffuriau a reolir a sylweddau seicoweithredol yng nghanol trefi a mannau cyhoeddus eraill gael effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal. Gall fod yn niweidiol i olwg yr ardal leol a gall arwain at amrywiaeth eang o niwsans, anhrefn a throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau er anfantais i'r gymuned leol.

(b) Mae'r Cyngor yn fodlon bod y defnydd gwrthgymdeithasol o alcohol, cyffuriau a reolir a sylweddau seicoweithredol yng nghanol tref Llanelli wedi cael, ac yn debygol o barhau i gael, effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal leol.

(c) Mae'r Cyngor hefyd yn fodlon bod effaith, neu effaith debygol, y gweithgaredd:-

- (i) Yn, neu'n debygol o fod, yn barhaus, neu o natur barhaus;
- (ii) Yn, neu'n debygol o wneud y gweithgareddau'n afresymol; ac
- (iii) Yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn.

(d) Mae'r Cyngor o'r farn bod y gwaharddiadau a'r gofynion a osodir gan y Gorchymyn hwn yn rhesymol.

(e) Nod y Gorchymyn hwn yw ceisio hwyluso defnydd diogel o fannau cyhoeddus yng nghanol y dref a'r mwynhad ohonynt, drwy roi pwerau ychwanegol i gwnstabliaid yr heddlu y gallant eu defnyddio i atal neu leihau'r risg o yfed gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a throseddau, niwsans ac anhrefn gysylltiedig. Hefyd, rhoddir pwerau ychwanegol i swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol y gallant eu defnyddio mewn perthynas ag yfed gwrthgymdeithasol.

(f) Wrth wneud y Gorchymyn hwn mae'r Cyngor wedi rhoi sylw i'r hawliau i ryddid mynegiant a rhyddid ymgynulliad a nodir yn Erthyglau 10 ac 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

**<u>Gwahardd Yfed Alcohol</u>**

1. Ni chaiff person yfed alcohol ar y tir y mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol iddo.

2. Mae person yn euog o drosedd os yw, ar unrhyw adeg, ar dir y mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol iddo, yn methu â chydymffurfio â gofyniad gan gwnstabl yr heddlu neu berson awdurdodedig sy'n gofyn iddo:

   (a) beidio ag yfed alcohol, nac unrhyw beth y mae cwnstabl yr heddlu neu berson awdurdodedig yn credu'n rhesymol ei fod yn alcohol; neu

   (b) ildio unrhyw beth yn ei feddiant sydd yn, neu'n hyn y mae cwnstabl yr heddlu neu berson awdurdodedig yn credu'n rhesymol ei fod yn alcohol neu'n gynhwysydd ar gyfer alcohol.

3. Rhaid i gwnstabl yr heddlu neu berson awdurdodedig sy'n gosod gofyniad ar berson o dan baragraff 2 o'r Gorchymyn hwn ddweud wrth y person bod methu â chydymffurfio â'r gofyniad, heb esgus rhesymol, yn drosedd.

4. Nid yw gofyniad a osodir gan berson awdurdodedig yn ddilys os gofynnir i'r person awdurdodedig ddangos tystiolaeth o'i awdurdodiad a'i fod yn methu â gwneud hynny.

5. Ni fydd person yn cyflawni trosedd o dan baragraff 2 o'r Gorchymyn hwn os gall ddangos bod ganddo esgus rhesymol dros fethu â chydymffurfio â'r gofyniad.

**Gofyniad i Ildio Eitemau**

6. Mae person yn euog o drosedd os yw, ar unrhyw adeg, ar dir y mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol iddo, yn methu â chydymffurfio â gofyniad gan gwnstabl yr heddlu sy'n gofyn iddo:

(a) ildio unrhyw beth yn ei feddiant y mae cwnstabl yr heddlu yn credu'n rhesymol ei fod wedi'i ddefnyddio i gynorthwyo i gymryd sylwedd meddwol; neu

(b) ildio unrhyw beth yn ei feddiant y mae cwnstabl yr heddlu yn credu'n rhesymol ei fod yn debygol o gael ei ddefnyddio i gynorthwyo i gymryd sylwedd meddwol;

At y dibenion hyn, mae "Cymryd" yn cynnwys llyncu, chwistrellu, anadlu neu ysmygu sylwedd meddwol.

7. Nid yw paragraff 6 o'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i nodwyddau, chwistrellau neu eitemau eraill sydd yn eu deunydd pacio gwreiddiol, ar yr amod bod y deunydd pacio yn dal wedi'i selio ac nad yw wedi'i agor.

8. Rhaid i gwnstabl yr heddlu sy'n gosod gofyniad ar berson o dan baragraff 6 o'r Gorchymyn hwn ddweud wrth y person bod methu â chydymffurfio â'r gofyniad, heb esgus rhesymol, yn drosedd.

9. Ni fydd person yn cyflawni trosedd o dan baragraff 6 o'r Gorchymyn hwn os gall ddangos bod ganddo esgus rhesymol dros fethu â chydymffurfio â'r gofyniad.

**Tir yr effeithir arno gan y Gorchymyn hwn**

10. Yn amodol ar yr eithriadau a nodir isod, mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i'r holl fannau cyhoeddus yng nghanol tref Llanelli a ddangosir â llinell ddu drwchus ar y cynllun yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

At y dibenion hyn, ystyr "man cyhoeddus" yw unrhyw fan y mae gan y cyhoedd, neu unrhyw garfan o'r cyhoedd, fynediad iddo, drwy dâl neu fel arall, fel hawl neu yn rhinwedd caniatâd datganedig neu ymhlyg.

11. Nid yw paragraffau 1 a 2 o'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i:-

(a) safle (ac eithrio safle a weithredir gan y Cyngor) a awdurdodir gan drwydded safle i'w ddefnyddio i gyflenwi alcohol;

(b) safle a awdurdodwyd gan dystysgrif safle clwb i'w ddefnyddio gan y clwb ar gyfer cyflenwi alcohol;

(c) man o fewn cwrtil y safle a nodir ym mharagraff (a) neu (b) uchod;

(d) safle a all, yn rhinwedd Rhan 5 o Ddeddf Trwyddedu 2003, gael ei ddefnyddio ar yr adeg berthnasol ar gyfer cyflenwi alcohol neu a allai, yn rhinwedd y Rhan honno, fod wedi cael ei ddefnyddio felly o fewn 30 munud cyn yr amser hwnnw;

(e) man lle mae cyfleusterau neu weithgareddau sy'n ymwneud â gwerthu neu yfed alcohol yn digwydd ar yr adeg berthnasol a ganiateir yn rhinwedd caniatâd a roddwyd o dan Adran 115E o Ddeddf Priffyrdd 1980.

12. Nid yw paragraffau 1 a 2 o'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i safle trwyddedig a weithredir gan y Cyngor:-

(a) Pan fydd y safle'n cael ei ddefnyddio i gyflenwi alcohol; neu

(b) O fewn 30 munud ar ddiwedd y cyfnod pan ddefnyddiwyd y safle ar gyfer cyflenwi alcohol.

13. At ddibenion y Gorchymyn hwn, mae safle yn golygu "safle trwyddedig a weithredir gan y Cyngor" os oes ganddo drwydded safle sydd wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio ar gyfer cyflenwi alcohol a:-

(a) Bod y drwydded yn eiddo i'r Cyngor; neu

(b) Bod y drwydded yn eiddo i berson arall, ond mae'r safle yn cael ei feddiannu gan y Cyngor, neu'n cael ei reoli gan y Cyngor neu ar ei ran.

**Dehongli**

14. At ddibenion y Gorchymyn hwn:

ystyr “alcohol" yw'r un a nodir o dan adran 191 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

ystyr "person awdurdodedig" yw person sydd wedi ei awdurdodi gan y Cyngor at ddibenion Adran 63 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Gall hyn gynnwys person nad yw'n gweithio i'r Cyngor.

ystyr "tystysgrif safle clwb" yw'r un a nodir o dan adran 60 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

ystyr "sylwedd meddwol" yw sylwedd sydd â'r gallu i ysgogi neu iselu'r brif system nerfol, ond nid yw'n cynnwys alcohol, tybaco a chynhyrchion tybaco, nicotin, caffein, cynhyrchion meddyginiaethol fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (lle y'u cymerir ar gyfer defnydd meddyginiaethol amlwg), neu unrhyw sylwedd sy'n cael ei gymryd fel arfer fel bwyd (gan gynnwys diod).

ystyr "cwnstabl yr heddlu" yw aelod neu gwnstabl arbennig Heddlu Dyfed-Powys sy'n cael ei ardystio'n gwnstabl o dan adran 29 o Ddeddf yr Heddlu 1996, neu aelod o staff sifil neu wirfoddolwr a ddynodwyd gan Heddlu Dyfed-Powys â'r pŵer i orfodi'r Gorchymyn hwn.

ystyr “trwydded safle" yw'r un a nodir o dan adran 11 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

ystyr "cyflenwi alcohol“ yw'r un a nodir o dan adran 14 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

**Cosbau**

15. Bydd person sy'n euog o drosedd o dan baragraff 2 o'r Gorchymyn hwn, o gael collfarn ddiannod, yn agored i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

16. Bydd person sy'n euog o drosedd o dan baragraff 6 o'r Gorchymyn hwn, o gael collfarn ddiannod, yn agored i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Dyddiedig y 3ydd o fis Ionawr, 2024

Rhoddwyd Sêl Gyffredin
Cyngor Sir Caerfyrddin
ar y ddogfen hon
ym mhresenoldeb:

Linda Rees-Jones

Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

18303

## Yr atodlen